



Rheoliadau a wnaed gan Weinidogion Cymru, a osodwyd gerbron Senedd Cymru o dan adran 45R o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984 (p. 22), i'w cymeradwyo drwy benderfyniad gan Senedd Cymru o fewn wyth niwrnod ar hugain gan ddechrau â'r diwrnod y gwneir yr offeryn, yn ddarostyngedig i'w estyn dros gyfnodau o ddiddymu neu doriad am fwy na phedwar diwrnod.

Regulations made by the Welsh Ministers, laid before Senedd Cymru under section 45R of the Public Health (Control of Disease) Act 1984 (c. 22), for approval by resolution of Senedd Cymru within twenty-eight days beginning with the day on which the instrument is made, subject to extension for periods of dissolution or recess for more than four days.

OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

WELSH STATUTORY
INSTRUMENTS

2020 Rhif 985 (Cy. 222)

2020 No. 985 (W. 222)

**IECHYD Y CYHOEDD,
CYMRU**

PUBLIC HEALTH, WALES

**Rheoliadau Diogelu Iechyd
(Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif
2) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 9)
2020**

**The Health Protection (Coronavirus
Restrictions) (No. 2) (Wales)
(Amendment) (No. 9) Regulations
2020**

NODYN ESBONIADOL

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)

Mae Rhan 2A o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984 yn galluogi Gweinidogion Cymru, drwy reoliadau, i wneud darpariaeth at ddiben atal, diogelu rhag, rheoli neu ddarparu ymateb iechyd y cyhoedd i fynychder neu ledaeniad haint neu halogiad yng Nghymru.

Mae'r Rheoliadau hyn wedi eu gwneud mewn ymateb i'r bygythiad difrifol ac uniongyrchol i iechyd y cyhoedd a berir gan fynychder a lledaeniad coronafeirws syndrom anadlol aciwt difrifol 2 (SARS-CoV-2) yng Nghymru.

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 2) (Cymru) 2020 (y "prif Reoliadau"). Mae'r diwygiadau—

EXPLANATORY NOTE

(This note is not part of the Regulations)

Part 2A of the Public Health (Control of Disease) Act 1984 enables the Welsh Ministers, by regulations, to make provision for the purpose of preventing, protecting against, controlling or providing a public health response to the incidence or spread of infection or contamination in Wales.

These Regulations are made in response to the serious and imminent threat to public health which is posed by the incidence and spread of severe acute respiratory syndrome coronavirus 2 (SARS-CoV-2) in Wales.

These Regulations amend the Health Protection (Coronavirus Restrictions) (No. 2) (Wales) Regulations 2020 (the "principal Regulations"). The amendments—

- (a) yn cyfyngu ar gynullïadau o dan do o aelodau o aelwyd estynedig i 6 pherson heb gynnwys unrhyw blant o dan 11 oed (nid yw hyn yn effeithio ar y rheol gyffredinol na chaiff unrhyw berson ymgynnull o dan do gydag unrhyw un o'r tu allan i'w aelwyd);
 - (b) yn ei gwneud yn ofynnol i orchuddion wyneb gael eu gwisgo yn ardaloedd cyhoeddus o dan do "mangreuedd agored" (sef mangreuedd sy'n agored i'r cyhoedd ac y mae'n ofynnol iddynt gymryd pob mesur rhesymol i leihau'r risg o ddod i gysylltiad â'r coronafeirws, a'i ledaenu, o dan reoliad 12 o'r prif Reoliadau) a chanolfannau trafniadaeth, oni bai bod esemptiad yn gymwys neu fod gan y person esgus rhesymol dros beidio â gwisgo'r gorchudd wyneb;
 - (c) yn egluro nad yw, o dan baragraff 4 o Atodlen 4A i'r prif Rheoliadau, yn esgus rhesymol i fynd i ardal diogelu iechyd leol i weithio, nac i ddarparu gwasanaethau gwirfoddol na gwasanaethau elusennol, os yw'n rhesymol ymarferol i wneud y gwaith neu i ddarparu'r gwasanaeth y tu allan i'r ardal;
 - (d) yn gwneud mân ddiwygiadau gan gynnwys diwygiadau sy'n ganlyniadol ar y newidiadau a grybwyllir uchod ac ar wneud Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Swyddogaethau Awdurdodau Lleol) (Cymru) 2020.
- (a) restrict gatherings indoors of members of an extended household to 6 persons not including any children aged under 11 (this does not affect the general rule that no person may gather indoors with anyone from outside their household);
 - (b) require face coverings to be worn in the indoor public areas of "open premises" (that is premises open to the public and required to take all reasonable measures to minimise the risk of exposure to, and spread of, coronavirus under regulation 12 of the principal Regulations) and transport hubs, unless an exemption applies or the person has a reasonable excuse for not wearing the face covering;
 - (c) make it clear that under paragraph 4 of Schedule 4A to the principal Regulations, it is not a reasonable excuse to enter a local health protection area for work, or to provide voluntary or charitable services, if it is reasonably practicable to do the work or provide the service outside the area;
 - (d) make minor amendments including amendments consequential on the changes mentioned above and on the making of the Health Protection (Coronavirus Restrictions) (Functions of Local Authorities) (Wales) Regulations 2020.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Aseidiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, ni luniwyd aseiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn.

The Welsh Ministers' Code of Practice on the carrying out of Regulatory Impact Assessments was considered in relation to these Regulations. As a result, a regulatory impact assessment has not been prepared as to the likely cost and benefit of complying with these Regulations.

Rheoliadau a wnaed gan Weinidogion Cymru, a osodwyd gerbron Senedd Cymru o dan adran 45R o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984 (p. 22), i'w cymeradwyo drwy benderfyniad gan Senedd Cymru o fewn wyth niwrnod ar hugain gan ddechrau â'r diwrnod y gwneir yr offeryn, yn ddarostyngedig i'w estyn dros gyfnodau o ddiddymu neu doriad am fwy na phedwar diwrnod.

Regulations made by the Welsh Ministers, laid before Senedd Cymru under section 45R of the Public Health (Control of Disease) Act 1984 (c. 22), for approval by resolution of Senedd Cymru within twenty-eight days beginning with the day on which the instrument is made, subject to extension for periods of dissolution or recess for more than four days.

OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

WELSH STATUTORY
INSTRUMENTS

2020 Rhif 985 (Cy. 222)

2020 No. 985 (W. 222)

**IECHYD Y CYHOEDD,
CYMRU**

PUBLIC HEALTH, WALES

**Rheoliadau Diogelu Iechyd
(Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif
2) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 9)
2020**

**The Health Protection (Coronavirus
Restrictions) (No. 2) (Wales)
(Amendment) (No. 9) Regulations
2020**

Gwnaed am 4.35 p.m. ar 11 Medi 2020

Made at 4.35 p.m. on 11 September 2020

*Gosodwyd gerbron Senedd
Cymru am 7.30 p.m. ar 11 Medi 2020*

*Laid before Senedd
Cymru at 7.30 p.m. on 11 September 2020*

Yn dod i rym 14 Medi 2020

Coming into force 14 September 2020

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn drwy arfer y pwerau a roddir gan adrannau 45C(1) a (3)(c), 45F(2) a 45P o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984(1).

The Welsh Ministers make the following Regulations in exercise of the powers conferred by sections 45C(1) and (3)(c), 45F(2) and 45P of the Public Health (Control of Disease) Act 1984(1).

Mae'r Rheoliadau hyn wedi eu gwneud mewn ymateb i'r bygythiad difrifol ac uniongyrchol i iechyd y cyhoedd a berir gan fynychder a lledaeniad coronafeirws syndrom anadlol aciwt difrifol 2 (SARS-CoV-2) yng Nghymru.

These Regulations are made in response to the serious and imminent threat to public health which is posed by the incidence and spread of severe acute respiratory syndrome coronavirus 2 (SARS-CoV-2) in Wales.

(1) 1984 p. 22. Mewnosodwyd adrannau 45C, 45F a 45P gan adran 129 o Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2008 (p. 14). Mae'r swyddogaethau o dan yr adrannau hyn wedi eu rhoi i "the appropriate Minister" ("y Gweinidog priodol"). O dan adran 45T(6) o Ddeddf 1984, y Gweinidog priodol, o ran Cymru, yw Gweinidogion Cymru.

(1) 1984 c. 22. Sections 45C, 45F and 45P were inserted by section 129 of the Health and Social Care Act 2008 (c. 14). The functions under these sections are conferred on "the appropriate Minister". Under section 45T(6) of the 1984 Act the appropriate Minister, as respects Wales, is the Welsh Ministers.

Mae Gweinidogion Cymru yn ystyried bod y diwygiadau a wneir gan y Rheoliadau hyn yn gymesur â'r hyn y maent yn ceisio ei gyflawni, sef ymateb iechyd y cyhoedd i'r bygythiad hwnnw.

Yn unol ag adran 45R o'r Ddeddf honno, oherwydd brys, mae Gweinidogion Cymru o'r farn ei bod yn angenrheidiol gwneud yr offeryn hwn heb fod drafft wedi ei osod gerbron Senedd Cymru ac wedi ei gymeradwyo ganddi drwy benderfyniad.

Enwi a dod i rym

1. Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 2) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 9) 2020 a deuant i rym ar 14 Medi 2020.

Diwygio Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 2) (Cymru) 2020

2.—(1) Mae Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 2) (Cymru) 2020(1) wedi eu diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn rheoliad 2A, yn lle paragraff (3) rhodder—

“(3) Pan fo aelwydydd yn cytuno i gael eu trin fel aelwyd estynedig—

- (a) mae unrhyw gyfeiriad yn y Rheoliadau hyn (ac eithrio yn y rheoliad hwn a rheoliad 14(1)(b)(i)) at “aelwyd” i'w ddarllen fel pe bai'n cynnwys yr aelwydydd sydd wedi cytuno felly, a
- (b) mae rheoliad 14 yn gymwys i gynulliad sy'n cynnwys personau o fwy nag un aelwyd mewn aelwyd estynedig fel pe bai'r canlynol wedi ei roi yn lle paragraff (1)—

“(1) Ni chaiff cynulliad mewn mangre o dan do, heb esgus rhesymol, gynnwys—

The Welsh Ministers consider that the amendments made by these Regulations are proportionate to what they seek to achieve, which is a public health response to that threat.

In accordance with section 45R of that Act the Welsh Ministers are of the opinion that, by reason of urgency, it is necessary to make this instrument without a draft having been laid before, and approved by a resolution of, Senedd Cymru.

Title and coming into force

1. The title of these Regulations is the Health Protection (Coronavirus Restrictions) (No. 2) (Wales) (Amendment) (No. 9) Regulations 2020 and they come into force on 14 September 2020.

Amendment of the Health Protection (Coronavirus Restrictions) (No. 2) (Wales) Regulations 2020

2.—(1) The Health Protection (Coronavirus Restrictions) (No. 2) (Wales) Regulations 2020(1) are amended as follows.

(2) In regulation 2A, for paragraph (3) substitute—

“(3) Where households agree to be treated as an extended household—

- (a) any reference in these Regulations (other than in this regulation and regulation 14(1)(b)(i)) to a “household” is to be read as including the households that have so agreed, and
- (b) regulation 14 applies to a gathering consisting of persons from more than one household in an extended household as if, for paragraph (1), there were substituted—

“(1) A gathering in premises indoors may not, without reasonable excuse, consist of—

(1) O.S. 2020/725 (Cy. 162), fel y'i diwygiwyd gan Reoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 2) (Cymru) (Diwygio) 2020 (O.S. 2020/752 (Cy. 169)), Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 2) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 2) 2020 (O.S. 2020/803 (Cy. 176)), Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 2) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 3) 2020 (O.S. 2020/820 (Cy. 180)), Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 2) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 4) 2020 (O.S. 2020/843 (Cy. 186)), Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 2) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 5) 2020 (O.S. 2020/867 (Cy. 189)), Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 2) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 6) 2020 (O.S. 2020/884 (Cy. 195)), Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 2) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 7) 2020 (O.S. 2020/912 (Cy. 204)) a Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 2) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 8) (Caerffili) 2020 (O.S. 2020/961 (Cy. 215)).

(1) S.I. 2020/725 (W. 162), as amended by the Health Protection (Coronavirus Restrictions) (No. 2) (Wales) (Amendment) Regulations 2020 (S.I. 2020/752 (W. 169)), the Health Protection (Coronavirus Restrictions) (No. 2) (Wales) (Amendment) (No. 2) Regulations 2020 (S.I. 2020/803 (W. 176)), the Health Protection (Coronavirus Restrictions) (No. 2) (Wales) (Amendment) (No. 3) Regulations 2020 (S.I. 2020/820 (W. 180)), the Health Protection (Coronavirus Restrictions) (No. 2) (Wales) (Amendment) (No. 4) Regulations 2020 (S.I. 2020/843 (W. 186)), the Health Protection (Coronavirus Restrictions) (No. 2) (Wales) (Amendment) (No. 5) Regulations 2020 (S.I. 2020/867 (W. 189)), the Health Protection (Coronavirus Restrictions) (No. 2) (Wales) (Amendment) (No. 6) Regulations 2020 (S.I. 2020/884 (W. 195)), the Health Protection (Coronavirus Restrictions) (No. 2) (Wales) (Amendment) (No. 7) Regulations 2020 (S.I. 2020/912 (W. 204)) and the Health Protection (Coronavirus Restrictions) (No. 2) (Wales) (Amendment) (No. 8) (Caerphilly) Regulations 2020 (S.I. 2020/961 (W. 215)).

- (a) mwy na 6 aelod o aelwyd estynedig, heb gynnwys unrhyw blant o dan 11 oed;
- (b) person nad yw'n aelod o'r aelwyd estynedig ar wahân i—
 - (i) gofalwr aelod o'r aelwyd estynedig, neu
 - (ii) person y mae aelod o'r aelwyd estynedig yn darparu gofal iddo.””

(3) Hepgorer rheoliad 11.

(4) Ar ôl rheoliad 12A mewnosoder—

“Gofyniad i wisgo gorchudd wyneb mewn mannau cyhoeddus penodol o dan do

12B.—(1) Rhaid i berson (“P”) wisgo gorchudd wyneb mewn mangreoedd perthnasol o dan do.

(2) Ond nid yw hyn yn ofynnol—

- (a) pan fo esemptiad yn gymwys o dan baragraff (3);
- (b) pan fo gan P esgus rhesymol dros beidio â gwisgo gorchudd wyneb, ac o ran hynny gweler paragraff (4).

(3) Mae esemptiad i'r gofyniad i wisgo gorchudd wyneb yn gymwys—

- (a) pan fo P yn blentyn o dan 11 oed;
- (b) pan fo P mewn mangre lle y gwerthir bwyd neu ddiod, neu lle y darperir bwyd neu ddiod fel arall, i'w fwyta neu i'w hyfed yn y fangre honno.

(4) Mae'r amgylchiadau pan fo gan P esgus rhesymol dros beidio â gwisgo gorchudd wyneb yn cynnwys—

- (a) pan na fo P yn gallu rhoi gorchudd am ei wyneb, neu wisgo neu dynnu gorchudd wyneb, oherwydd salwch neu nam corfforol neu feddyliol, neu anabledd (o fewn yr ystyr a roddir i “disability” yn adran 6 o Ddeddf Cydraddoldeb 2010(1));
- (b) pan fo P yn ymgymryd â gweithgaredd ac y gellir ystyried yn rhesymol bod gwisgo gorchudd wyneb yn ystod y gweithgaredd hwnnw yn peri risg i iechyd P;

- (a) more than 6 members of an extended household, not including any children under the age of 11;
- (b) a person who is not a member of the extended household apart from—
 - (i) the carer of a member of the extended household, or
 - (ii) a person to whom a member of the extended household is providing care.””

(3) Omit regulation 11.

(4) After regulation 12A insert—

“Requirement to wear face covering in certain indoor public places

12B.—(1) A person (“P”) must wear a face covering in relevant indoor premises.

(2) But this is not required—

- (a) where an exemption applies under paragraph (3);
- (b) where P has a reasonable excuse not to wear a face covering, as to which see paragraph (4).

(3) An exemption to the requirement to wear a face covering applies—

- (a) where P is a child under the age of 11;
- (b) where P is in premises where food or drink is sold, or otherwise provided, for consumption on those premises.

(4) The circumstances in which P has a reasonable excuse to not wear a face covering include—

- (a) where P is unable to put on, wear or remove a face covering because of a physical or mental illness or impairment, or a disability (within the meaning of section 6 of the Equality Act 2010(1));
- (b) where P is undertaking an activity and wearing a face covering during that activity may reasonably be considered to be a risk to P's health;

- (c) pan fo P yn gorfod tynnu'r gorchudd wyneb i gyfathrebu â pherson arall sy'n cael anhawster i gyfathrebu (mewn perthynas â lleferydd, iaith neu fel arall);
- (d) pan fo P yn gorfod tynnu'r gorchudd wyneb er mwyn osgoi niwed neu anaf, neu'r risg o niwed neu anaf, i P ei hunan neu i eraill;
- (e) pan fo P yn y fangre i osgoi anaf, neu i ddianc rhag risg o niwed, ac nad oes gan P orchudd wyneb;
- (f) pan fo P yn gorfod tynnu'r gorchudd wyneb i—
- (i) cymryd meddyginiaeth;
 - (ii) bwyta neu yfed, pan fo'n rhesymol angenrheidiol;
- (g) pan ofynnir i P dynnu'r gorchudd wyneb gan swyddog gorfodaeth.
- (5) At ddibenion paragraff (3)(b), pan fo bwyd neu ddiod yn cael ei werthu neu ei gwerthu neu'n cael ei ddarparu neu ei darparu fel arall i'w fwyta neu i'w hyfed mewn rhan o fangre, nid yw'r esemptiad ond yn gymwys pan fo P yn y rhan honno.
- (6) At ddibenion y rheoliad hwn, ystyr "mangreoddedd perthnasol o dan do" yw ardaloedd cyhoeddus o dan do mewn—
- (a) mangreoddedd agored;
 - (b) gorsafoedd bysiau;
 - (c) gorsafoedd trenau;
 - (d) meysydd awyr;
 - (e) porthladdoedd môr."
- (5) Yn rheoliad 17—
- (a) ym mharagraff (1)(c)—
 - (i) ar ôl paragraff (i) mewnosoder "neu";
 - (ii) hepgorer paragraffau (iii) a (iv);
 - (b) ym mharagraff (1)(d)—
 - (i) ar ôl paragraff (i) mewnosoder "neu";
 - (ii) hepgorer paragraffau (iii) a (iv);
 - (c) ym mharagraff (2), hepgorer " , 11(4)";
 - (d) hepgorer paragraff (3).
- (6) Yn rheoliad 18—
- (a) hepgorer paragraff (3);
 - (b) ym mharagraff (3C), yn y geiriau o flaen isbaragraff (a), yn lle "paragraff 6(1) o Atodlen 4A" rhodder "rheoliad 12B(1)";
- (c) where P has to remove the face covering to communicate with another person who has difficulty communicating (in relation to speech, language or otherwise);
- (d) where P has to remove the face covering in order to avoid harm or injury, or the risk of harm or injury, to themselves or others;
- (e) where P is at the premises to avoid injury, or to escape a risk of harm, and does not have a face covering;
- (f) where P has to remove the face covering to—
- (i) take medication;
 - (ii) eat or drink, where reasonably necessary;
- (g) where P is asked to remove the face covering by an enforcement officer.
- (5) For the purposes of paragraph (3)(b), where food or drink is sold or otherwise provided for consumption in a part of premises, the exemption only applies where P is in that part.
- (6) For the purposes of this regulation, "relevant indoor premises" means the indoor public areas of—
- (a) open premises;
 - (b) bus stations;
 - (c) railway stations;
 - (d) airports;
 - (e) sea ports."
- (5) In regulation 17—
- (a) in paragraph (1)(c)—
 - (i) after paragraph (i) insert "or";
 - (ii) omit paragraphs (iii) and (iv);
 - (b) in paragraph (1)(d)—
 - (i) after paragraph (i) insert "or";
 - (ii) omit paragraphs (iii) and (iv);
 - (c) in paragraph (2), omit " , 11(4)";
 - (d) omit paragraph (3).
- (6) In regulation 18—
- (a) omit paragraph (3);
 - (b) in paragraph (3C), in the words before subparagraph (a), for "paragraph 6(1) of Schedule 4A" substitute "regulation 12B(1)";

- (c) ym mharagraff (6A), yn lle “baragraff 6(1) o Atodlen 4A” rhodder “neu reoliad 12B(1)”.
- (7) Yn rheoliad 20, ym mharagraff (1)—
- (a) yn is-baragraff (a), hepgorer “, 11(4) neu 12A(1),”;
- (b) yn is-baragraff (b)—
- (i) ar ôl “rheoliad” mewnosoder “12A(1), 12B(1),”;
- (ii) yn lle “, 4(1) neu 6(1)” rhodder “neu 4(1)”.
- (8) Yn rheoliad 21—
- (a) ym mharagraff (10), ar ôl “hyn” mewnosoder “neu Reoliadau a grybwyllir ym mharagraff (11)”;
- (b) ym mharagraff (11), ar ôl “2020” mewnosoder “a Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Swyddogaethau Awdurdodau Lleol) (Cymru) 2020(1)”;
- (c) hepgorer paragraff (15).
- (9) Yn Atodlen 4A—
- (a) ym mharagraff 4(2)(e) ar ôl “elusennol” mewnosoder “pan na fo’n rhesymol ymarferol ymgymryd â’r gwaith neu ddarparu’r gwasanaeth o fan y tu allan i’r ardal”;
- (b) hepgorer paragraff 6.

Arbedion ar gyfer troseddau a chosbau mewn perthynas â gweithredoedd blaenorol

3. Mae rheoliadau 20 ac 21 o Reoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 2) (Cymru) 2020 yn parhau i gael effaith mewn perthynas ag unrhyw drosedd a gyflawnir, neu y credir yn rhesymol ei bod wedi ei chyflawni, cyn i’r diwygiadau a wneir gan y Rheoliadau hyn ddod i rym fel pe na bai’r diwygiadau hynny wedi eu gwneud.

- (c) in paragraph (6A), for “paragraph 6(1) of Schedule 4A” substitute “regulation 12B(1)”.
- (7) In regulation 20, in paragraph (1)—
- (a) in sub-paragraph (a), omit “, 11(4) or 12A(1),”;
- (b) in sub-paragraph (b)—
- (i) after “regulation” insert “12A(1), 12B(1),”;
- (ii) for “, 4(1) or 6(1)” substitute “or 4(1)”.
- (8) In regulation 21—
- (a) in paragraph (10), after “Regulations” insert “or Regulations mentioned in paragraph (11)”;
- (b) in paragraph (11), after “2020” insert “and the Health Protection (Coronavirus Restrictions) (Functions of Local Authorities) (Wales) Regulations 2020(1)”;
- (c) omit paragraph (15).
- (9) In Schedule 4A—
- (a) in paragraph 4(2)(e) after “services” insert “where it is not reasonably practicable to carry out the work or provide the service from a place outside the area”;
- (b) omit paragraph 6.

Savings for offences and penalties in relation to prior acts

3. Regulations 20 and 21 of the Health Protection (Coronavirus Restrictions) (No. 2) (Wales) Regulations 2020 continue to have effect in relation to any offence committed, or reasonably believed to have been committed, before the amendments made by these Regulations came into force as if those amendments had not been made.

Mark Drakeford

Y Prif Weinidog, un o Weinidogion Cymru
Am 4.35 p.m. ar 11 Medi 2020

First Minister, one of the Welsh Ministers
At 4.35 p.m. on 11 September 2020

©© Hawlfraint y Goron 2020

© Crown copyright 2020

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y Deyrnas Unedig gan The Stationery Office Limited o dan awdurdod ac arolygiaeth Jeff James, Rheolwr Gwasg Ei Mawrhydi ac Argraffydd Deddfau Seneddol y Frenhines.

Printed and published in the UK by The Stationery Office Limited under the authority and superintendence of Jeff James, Controller of Her Majesty’s Stationery Office and Queen’s Printer of Acts of Parliament.

(1) O.S. 2020/977 (Cy. 218).

(1) S.I. 2020/977 (W. 218).

£6.90

W202009111014 09/2020

<http://www.legislation.gov.uk/id/wsi/2020/985>

ISBN 978-0-348-20618-0



9 780348 206180